**STD05-15-00**

**CAMAU GWEITHREDU'N DEILLIO O STD03-99 A STD-04-00**

| **Eitem** | **Gweithredu** | **Pwy?** | **Sefyllfa Ddiweddaraf** |
|---|---|---|---|
| **Eitem 2: Diweddariad chwarterol ac arolwg o gamau gweithredu'n deillio o STD-02-99W**<br><br><u>Cardiff County Club</u><br><br>Nodwyd bod nifer o anghysonderau'n dod i'r amlwg rhwng rheol sefydlog 4, yr Atodiad a chanllawiau'r Cynulliad ar fuddiannau. Roedd angen cynnal arolwg; byddai modd edrych ar bwnc clybiau preifat i aelodau fel rhan o'r arolwg hwnnw. | Sicrhau fod pwnc clybiau preifat i aelodau'n cael ei gynnwys fel rhan o'r arolwg o orchymyn sefydlog 4. | Ysgrifenyddiaeth | Gofalwyd am hyn yn y papur ar Arolwg o Fuddiannau Aelodau (STD 05-18-00 |
| **Eitem 3: Cofrestr o Fuddiannau Aelodau a Chanllawiau**<br><br><u>Nawdd</u><br><br>Cytunodd y Pwyllgor y dylid dosbarthu'r cyngor a gynhwyswyd yn y papur fel canllaw i'r Aelodau.<br><br><u>Datgan Buddiannau a Phleidleisio</u><br><br>Roedd yn amlwg o'r drafodaeth fod pryder ynghylch yr holl bwnc a bod rhai'n credu bod safonau dwbl ar waith.<br><br>Croesawodd y Pwyllgor y cynnig [i gynnal arolwg], yn amodol ar ymgynghoriad llawn gydag Aelodau a/neu bleidiau i nodi'r diffygion a'r newidiadau arfaethedig. Yn y tymor byr cytunwyd y dylai'r Ysgrifenyddiaeth gyhoeddi canllawiau | Gweithredu'r argymhellion ym mharagraffau 6, 10 ac 11 o STD-3-12-99W fel y cytunodd y Pwyllgor. Yn amodol ar:<br><br>1. Hysbysu'r Aelodau o'r Arolwg.<br>2. Pwysleisio'r "rheol euraid" yn y cyngor sylfaenol drafft ym mharagraff 11. | Ysgrifenyddiaeth | Dosberthir y canllawiau i'r Aelodau ym mis Ebrill (oherwydd oedi wrth gyfieithu)<br><br>Fel uchod |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ychwanegol ar bynciau penodol a godwyd gan y Pwyllgor ac y dylai'r nodyn i gyd-fynd â'r canllawiau hysbysu Aelodau fod y Pwyllgor yn bwriadu cynnal arolwg llawn | | | |
| **Eitem 4: Trefn Gwyno'r Cynulliad**<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor yr ymatebion i'r ymgynghoriad; cytunwyd y dylid gofyn i'r Ymgynghorydd Annibynnol fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, ar ôl ei benodi. | Briffio'r Ymgynghorydd Annibynnol | Ysgrifenyddiaeth | Penodwyd Ymgynghorydd ar 15 Mawrth. Cafodd ei friffio gan yr Ysgrifenyddiaeth ddechrau mis Ebrill; Bydd yn adrodd yn ôl yn llafar yng nghyfarfod mis Mai. |
| **Eitem 5: Ymgynghorydd Annibynnol**<br><br>Roedd y Pwyllgor am gynnwys y pleidiau fwy yn y broses ddethol. Cytunwyd i ymgynghori ag arweinwyr y pleidiau cyn cadarnhau penodiad yr ymgeisydd sy'n cael ei ffafrio. | Paratoi nodiadau ar y cyd i'r Cadeirydd a'r Llywydd eu hanfon at arweinwyr y pleidiau cyn gynted â phosibl ar ôl cynnal y cyfweliadau. | Ysgrifenyddiaeth | Cafwyd caniatâd. Gwnaed penodiad ar 15 Mawrth. |
| | | | |
| **STD04-00 Cyfarfod arbennig gyda'r ymgynghorydd sydd newydd ei benodi** | | | |
| **Eitem 1: Cyflwyniadau** | Drafftio protocol yn amlinellu rôl yr Ymgynghorydd a threfniadau ar gyfer cyswllt Aelodau gydag ef. | Ysgrifenyddiaeth | Wedi'i ddrafftio. Caiff ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mai. |
| **Eitem 3: Gweithdrefn Gwyno** | Ymgymryd â gwaith pellach ar y weithdrefn gwyno ddrafft gyda golwg ar roi gwedd derfynol iddi a'i rhoi ar waith. | Ymgynghorydd | Diweddaru llafar yn y cyfarfod fis Mai. |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Safonau**

**Swyddfa'r Llywydd**